# Fuoch chi 'rioed yn morio?

Amgueddfa
Forwrol
Llŷn
Maritime Museum

# MÔR

# ‘corff o ddŵr heli’ yw môr

| **Geiriau môr+** | **Geiriau yn cynnwys ‘môr’** |
| --- | --- |

**Geiriau môr+**

- Morlo
- Mor-forwyn
- Morfa
- Morfil
- Morfarch
- Mordaith
- morleidr
- Morwr
- Morio
- morglawdd

**Geiriau yn cynnwys ‘môr’**

- Draenog môr
- Pysgod y môr
- Bwyd môr
- Cregyn môr

- Cefnfor
- Arfordir
- Tramor
- Tanfor

# Ar y Môr

- Morwr



- Morio
















# Tasgau !

1. Yn yr Amgueddfa forwrol yma mae llawer o bethau morwrol : mewn grwpiau, ewch o gwmpas y stafell yn nodi eitemau morwrol i mi….





2. Rhestrwch ddulliau o forio (e.e. cwch)

# Cwch, Bad, Llong….

**Bad achub**
**Bad stemar**
**Cwch 'sgota**

**Caiac**
**iot**
**Dingi**
**Canŵ**
**Cwch rhwyfo**

**Llong hwyliau**

**Llong ager (ager-long)**
**Stemar**
**Llong bleser (cruiseship)**
**Llong badl**
**Tancer**
**Tancer olew**
**Llong danfor**

# Tasg ! Gwnewch dabl o longau:

- Fath o long
- Gwneuthuriad
- Tanwydd

| Fath o long | Gwnaed o… | Tanwydd … |
|---|---|---|
| Llong hwylio | coed | Gwynt |
| | | |
| | | |
| | | |

# Llongau hwyliau  ers talwm…

- **Barc**  :  o leiaf 3 mast, rigin sgwâr, a rigin  yn ei hyd 'blaen ac ol' (fore and aft)  ar y cefn
- **Barcentîn** : 3-4mast, rigin sgwâr ar y mast blaen, blaen ac ól fel arall
- **Brig**  :  2 fast, rigin sgwâr
- Brigantîn : 2 fast , rigin sgwâr ar y blaen
- **Brigantîn  :**  2 fast, rigin sgwâr ar y mast blaen,yn ei hyd ar y cefn
- **Sgŵner :** 2 fast,  rigin yn ei hyd, hwyl uchaf  y mast blaen yn sgwâr

# Eich tro chi ! Tasgau

1. Dylunio llong hwyliau.

- Faint o fastiau ?
- Faint o hwyliau ?
- Sut rigin ? (sgwâr, blaen ac ôl?)

2. Gwnewch gwch papur

# Caneuon Môr : siantis

- Nathan  Evans 'Wellerman'
- https://https://www.youtube.com/watch?v=qP-7GNoDJ5cyoutu.be/qP-7GNoDJ5c

- J Glynn Davies  Cerddi Porth-dinllaen
- https://youtu.be/P0NsqAgB4xE?t=10
- https://youtu.be/EikaXj8e_Mg

# ‘Llongau Caernarfon’
## J Glyn Davies

Mae'r holl longau ar y cei yn llwytho
Pam na chaf i fynd fel pawb i forio?
Dacw dair yn dechrau warpio
Ac am hwylio heno
Birkinhead, Bordo a Wiclo
Toc daw'r stemar bach i'w towio
Golau coch ar waliau wrth fynd heibio

Llongau'n mynd a dod a llongau'n canlyn
Heddiw, fory ac yfory wedyn
Mynd a'u llwyth o lechi gleision
Dan eu hwyliau gwynion
Rhai i Ffrainc a rhai i'r Werddon
Toc daw'r stemar bach i'w towio
Golau gwyrdd ar waliau wrth fynd heibio

Pam na chaf i fynd yn llongwr
Ar holl longau yn llwytho yn yr harbwr?

Holaf ym mhob llong ar hyd yr harbwr
'Oes 'na le i hogyn fynd yn llongwr?
A chael spleinsio rhaff a rhiffio?
A chael dysgu llywio?
A chael mynd mewn cwch i sgwlio?‘

Beth yw ystyr y geiriau hyn?

Ffeindiwch y llefydd hyn ar fap

# Hoffech CHI fynd i forio ?




- Pa bethau fuasech chi'n pacio yn eich trync?
- Lle hoffech chi fynd?
- Pa fath o waith hoffech chi wneud ?
- Anfonwch neges adra !